

PATAGONIA

CANLLAW I ATHRAWON

Darparwyd yr adnodd yma i gynorthwyo myfyrwyr i astudio'r ffilm 'Patagonia' fel rhan o arholiad TAG UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith.

Ceir naw uned, ac mae cwestiynau ar ddiwedd pob un a fydd yn ysgogi myfyrwyr i ffurfio barn ar wahanol agweddau o'r ffilm. Gofynnir i ddisgyblion ymateb i glipiau a lluniau llonydd o'r ffilm, ac ystyried y ffilm yn ei gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol.

Darperir adran geirfa ar ddiwedd pob uned i gynorthwyo'r defnyddwyr.

1. HANES A CHEFNDIR Y FFILM.

Ceir hanes y cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia, yn ogystal â gwybodaeth am ryfel y Malvinas a boddi Capel Celyn.

Beth am gael trafodaeth dosbarth ar sail yr adran yma? Gofynnwch i'r disgyblion drafod sut mae'r wybodaeth gefndirol yn effeithio ar ddatblygiad y plot ac ar y cymeriadau. A ydy'r ffilm yn gweithio os na fyddech yn gwybod am gefndir hanesyddol Cymru a Phatagonia? Ydych chi'n meddwl fod pobl tu allan i Gymru yn gwybod fod rhai pobl yn siarad Cymraeg ym Mhatagonia?

2. Y STORI YM MHATAGONIA.

Ceir crynodeb o'r stori yn y ffilm 'Patagonia', gan ganolbwyntio ar drobwyntiau a phrif ddigwyddiadau'r ffilm.

Gallwch ofyn i'r disgyblion drafod y stori ym Mhatagonia wrth ddarllen yr adran yma. Gofynnwch iddynt drafod pa ran o'r stori sydd bwysicaf, a pha ran sy'n gweithio orau yn eu barn nhw.

3. Y STORI YNG NGHYMRU.

Ceir crynodeb o'r stori yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar brif elfennau'r plot a datblygiad y llinyn storiol.

Gallwch ofyn i'r myfyrwyr drafod pa elfennau o'r stori yng Nghymru sydd bwysicaf iddyn nhw, a pha rannau sy'n gweithio orau yn y rhan yma o'r stori.

4. Y CYMERIADAU YM MHATAGONIA

Mae yma grynodeb o gymeriadau'r stori ym Mhatagonia, ac enghreifftiau i geisio dadansoddi personoliaethau a'u gweithredoedd.

Beth am ofyn i'r myfyrwyr drafod eu hoff gymeriadau ym Mhatagonia, gan eu hannog i esbonio pam ac i ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eu barn?

5. Y CYMERIADAU YNG NGHYMURU

Ceir yma grynodeb o gymeriadau'r stori yng Nghymru, gan roi esiamplau o'r ffilm i geisio dod i ddeall eu cymhelliad a'u datblygiad.

Gall y dosbarth drafod y cymeriadau hyn gyda'i gilydd, gan ofyn am farn un myfyriwr am un cymeriad ac annog myfyrwyr eraill i ymateb, gan roi'r patrymau iaith priodol ar gyfer cytuno neu anghytuno-

*"Rydw i'n cytuno oherwydd..." neu "Dydw i ddim yn cytuno â hynny,
oherwydd..."*

6. TECHNEG AU FFILMIO

Mae'r uned yma'n trafod sain, technegau camera a delweddau, a bydd clipiau a delweddau yn cael eu cynnwys i annog trafodaeth am effeithiolrwydd y technegau yma.

Beth am chwarae clipiau o'r ffilm a thrafod sut mae'r technegau ffilmio yn dylanwadu ar awyrgylch yr olygfa? Gallwch annog y myfyrwyr i ddod o hyd i'w hesiamplau eu hunain o olygfeydd sy'n defnyddio technegau ffilmio difyr neu wahanol.

7. THEMÂU

Mae'r Gymraeg, Cariad a Hanes yn cael eu cynnig fel themâu posib, a cheir enghreifftiau i gefnogi'r rheiny yn yr uned yma. Bydd posib i ddisgyblion chwilio am is-themâu eraill a dilyn y patrwm o gynnig enghreifftiau i gefnogi eu barn.

Gallwch drafod y prif themâu gyda'r disgyblion, gan ofyn iddynt ddod o hyd i fwy o esiamplau o'r themâu yma. Yna, gofynnwch iddynt gynnig eu his-themâu eu hunain, a gofyn am esiamplau a thrafodaeth am y rhain.

8. SYMBOLAU

Mae'r uned hon yn trafod y symbolau a geir o fewn y ffilm, fel natur, iaith, a stori Blodeuwedd. Mae yma grynodedb o stori Blodeuwedd i'r myfyrwyr sy'n anghyfarwydd â hi.

Gellid gofyn i'r myfyrwyr drafod y defnydd o'r symbolau a'r effaith maent yn ei gael ar y stori a'r awyrgylch. Yna, dylid annog y myfyrwyr i feddwl am symbolau eraill, gan drafod ymysg ei gilydd pa symbolau sydd fwyaf effeithiol, a pha effaith maen nhw'n ei gael ar y stori.

9. PARATOI AR GYFER ARHOLIAD

Yn yr uned yma, mae enghreifftiau o farn am y ffilm, wedi ei osod ar ffurf dyfyniadau er mwyn ysgogi'r myfyrwyr i fynegi barn ar lafar. Ar

ddiwedd yr uned, mae rhai enghreifftiau o'r patrymau iaith y gellid eu cyflwyno wrth fynegi barn, gan gynnwys patrymau ar lefel sylfaenol a'r math o batrymau a all gynorthwyo'r myfyrwyr i ennill graddau uwch.

Beth am annog y myfyrwyr i ddefnyddio'r patrymau iaith a ddefnyddir yn yr adran yma i leisio eu barn eu hunain? Mae'n bwysig iddyn nhw wrando ar ei gilydd, a chytuno neu anghytuno mewn ffordd briodol.

Yn ogystal â'r unedau, mae'r wefan yn cynnwys clipiau fideo ac oriel o luniau o'r ffilm. Mae'n bosib i'r myfyrwyr ddefnyddio'r rhain ar eu liwt eu hunain, neu fel sbardun i drafodaeth grŵp neu ddsbarth am themâu neu gymeriadau'r ffilm.

Beth am osod astudiaeth o un o'r clipiau neu luniau fel gwaith cartref? Gallai'r myfyrwyr chwilio am themâu, symbolau ac archwilio'r perthnasau rhwng cymeriadau, ac yna cyflwyno hyn i weddill y dosbarth fel sail am drafodaeth.